Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Gofal yn y Cartref - Sir y Fflint**

**Cyngor Sir y Fflint**
**Tŷ Dewi Sant**
**Parc Dewi Sant**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 3FF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

**18/11/2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaeth Gofal yn y Cartref - Sir y Fflint

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Cyngor Sir y Fflint |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r gwasanaeth yn cynnwys gwasanaethau gwahanol o dan un cofrestriad. Cymorth Cartref yw'r rhain, sy'n rhoi cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain: Gofal Ychwanegol, sy'n rhoi cymorth i bobl mewn lleoliadau Gofal Ychwanegol; a Byw â Chymorth, sy'n rhoi cymorth i bobl ag anableddau dysgu mewn tai a rennir.

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt gan weithwyr gofal. Maent yn wybodus, yn barchus, yn ofalgar, ac yn diwallu anghenion y bobl. Lle y bo'n briodol, dywedodd y bobl wrthym nad yw'r staff gofal byth yn hwyr a chaiff galwadau eu cynnal. Rhoddir cymorth i'r bobl mewn modd urddasol a phwyllog gan dîm cyfeillgar o staff. Ond teimlai rhai o'r staff mewn gwasanaeth gofal ychwanegol eu bod yn cael eu rhuthro. Mae parhad y gofal yn dda, ac mae'r bobl yn cael cymorth gan nifer fach o staff gofal. Mae dogfennaeth gofal y bobl yn fanwl, gan roi cyfarwyddiadau priodol i'r staff ar sut i roi cymorth. Caiff y cynlluniau gofal eu hadolygu'n rheolaidd ond mae'n ofynnol i adolygiadau ffurfiol gael eu cynnal bob tri mis ym mhob un o'r gwasanaethau.

Mae'r bobl yn cael cymorth da gan wasanaeth sydd wedi'i reoli'n dda. Caiff y tîm o staff brwdfrydig eu recriwtio'n ddiogel a'u goruchwylio'n rheolaidd, yn ogystal â'u hyfforddi i ddiwallu anghenion cymorth unigolion. Mae'r rheolwyr yn cynnal archwiliadau manwl o'r gwasanaeth yn rheolaidd, mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith a gofynnir i'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth leisio eu barn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu trin yn dda, gydag urddas, ac yn cael eu parchu. Maent yn fodlon ar y cymorth a gânt. Mae'r bobl yn dweud bod y staff gofal yn gyfeillgar, a dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn edrych ar gynlluniau gofal y bobl cyn rhoi gofal a chymorth iddynt. Mae dogfennaeth gofal a chymorth y bobl yn fanwl ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, er na chaiff hyn ei wneud yn unol â'r rheoliad bob amser, ac mae'n rhoi cyfarwyddiadau digonol i'r staff o ran sut i roi cymorth i unigolion. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y ddogfennaeth hon yn adlewyrchiad cywir o'r unigolyn a'i anghenion. Caiff y bobl eu cefnogi gan dimau bach o staff sydd wedi meithrin cydberthnasau da a phriodol â nhw. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau a'u canlyniadau. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau am eu bywydau. Mae hyn yn cynnwys y broses o adolygu cynlluniau personol yn rheolaidd a chwblhau arolygon ynghylch y gwasanaeth.

Mae gan y gwasanaeth fesurau da ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n cael gwasanaeth yn cael eu diogelu rhag niwed ac maent o ddifrif am amddiffyn unigolion. Mae'r arferion recriwtio yn gadarn a chaiff y staff gofal hyfforddiant mewn meysydd fel diogelu. Mae amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn i'r staff eu dilyn. Mae'r cynlluniau gofal yn adlewyrchu'r gofynion a nodir yn y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan weithwyr proffesiynol. Mae'r asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a gwybodaeth am ddarpar gleientiaid. Ymgynghorir â'r bobl ynglŷn â'u hanghenion a'u dewisiadau gofal cyn i'r gwasanaeth ddechrau er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn edrych ar y cynlluniau gofal cyn i'r gwasanaeth ddechrau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gofynion y person. Mae'r gwaith papur cyn derbyn yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd y staff gofal wrthym fod unrhyw berson newydd mewn eiddo byw â chymorth a rennir yn cael sawl sesiwn “blasu” cyn iddynt symud i mewn. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau. Cadarnhaodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth bod y staff yn ymgynghori â nhw ynghylch y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Caiff hyn ei gynnal yn yr un modd yr hoffai'r person gael cymorth.

Caiff y bobl ofal a chymorth o ansawdd da sydd wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn. Mae cynlluniau gofal personol manwl ar waith ac maent yn rhoi cyfarwyddiadau cynhwysfawr i'r staff gofal ar sut i gefnogi'r bobl. Er nad yw'r cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n ffurfiol yn unol â'r rheoliadau bob amser, cânt eu hadolygu'n rheolaidd. Gwnaethom siarad â'r rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol am y broses o adolygu'r cynlluniau gofal a dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal i drafod y ffyrdd ymlaen mewn perthynas â hyn. Mae'n amlwg fod y gwaith o adolygu'r cynlluniau gofal yn mynd rhagddo yn rheolaidd ac nid yw'r diffyg yn y broses adolygu fel y nodir gan y rheoliadau yn cael effaith ar unrhyw agwedd o'r gwasanaeth. Roedd cynllun gofal un person wedi cael ei adolygu chwe gwaith mewn cyfnod o 12 mis. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i gynlluniau personol y bobl. Mae'r cynlluniau gofal yn adlewyrchu'r wybodaeth a geir yn nogfennaeth asesu cyn derbyn y gwasanaeth ei hun a'r wybodaeth a ddarparwyd gan weithwyr proffesiynol ynghylch sut i gefnogi'r unigolyn. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Gwelsom dystiolaeth fod y bobl sy'n byw yn yr eiddo byw â chymorth a rennir a'r eiddo cymorth ychwanegol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn trafod â nhw ynghylch y cymorth sydd eu hangen arnynt. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw fod y cynlluniau gofal yn fanwl ac yn rhoi'r wybodaeth a'r cyfarwyddiadau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl. Gwnaethant hefyd gadarnhau fod cynlluniau gofal yn cael eu diweddaru gydag unrhyw newidiadau i'r gofal a'r cymorth y gall fod eu hangen ar y bobl ac maent yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau. Nodwyd hefyd fod y cynlluniau risg yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu ar gyfnodau priodol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gofynion deietegol unigolyn sy'n byw yn un o'r eiddo byw â chymorth y gwnaethom ymweld ag ef wedi'u nodi ym mhob rhan ddisgwyliedig o'r cynllun gofal. Er hynny, roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o ofynion deietegol yr unigolyn. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol ac aed i'r afael â'r mater yn syth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r trefniadau rheoli cynhwysfawr sy'n mynd rhagddynt yn sicrhau y caiff y gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth ei wneud yn effeithiol, ac mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o bob agwedd ar y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth, yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rheolwyr ac yn cyfrannu at bwyllgorau priodol yr Awdurdod Lleol yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau'r gwaith o adolygu'r gwasanaeth bob tri mis. Caiff prosesau sicrhau ansawdd yn unol â'r rheoliadau a phrosesau sicrhau ansawdd y darparwr ei hun eu cynnal, sy'n dangos bod y darparwr yn ceisio barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom ffeiliau'r staff a oedd yn dangos tystiolaeth o brosesau recriwtio cadarn. Mae niferoedd priodol o staff gwybodus ar gael i gefnogi'r bobl. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â rhai o'r staff yn un o'r eiddo gofal ychwanegol a ddywedodd fod y staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro yn sgil lleihad yn nifer y staff. Gwnaethom edrych ar rotas staff ar gyfer y gwasanaeth hwn a oedd yn dangos bod lefelau staffio wedi gostwng ychydig. Gwnaethom siarad â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol a ddywedodd wrthym eu bod yn recriwtio ar gyfer gweithwyr gofal mewn cyfnod heriol o ran recriwtio staff gofal. Gwnaethom siarad â'r bobl yn y gwasanaeth a ddywedodd eu bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, ac nad oedd y staff yn cael eu rhuthro bob amser. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael llawer o hyfforddiant sy'n rheolaidd ac yn addas ar gyfer y bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom gofnodion hyfforddiant sy'n cadarnhau hyn, gyda hyfforddiant yn cael ei gynnal mewn meysydd fel diogelu, meddyginiaeth, symud a lleoli a dementia. Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm, arfarniadau a sesiynau goruchwylio staff rheolaidd yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd y staff gofal fod y rhain yn cael eu cynnal. Dywedodd y staff gofal a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu bod yn cael eu cefnogi gan grwpiau bach o weithwyr gofal. Mae'r rotas staff yn cadarnhau bod y bobl yn cael cymorth da a pharhaus gan dimau bach o staff gofal.

Mae'r darparwr o ddifrif am ddiogelu ac mae ganddo systemau da ar waith i ddiogelu'r unigolion y mae yn eu cefnogi. Mae'r polisi diogelu yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol cyfredol a chaiff archwiliadau diogelu rheolaidd eu cynnal. Mae systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn cael eu dilyn, gyda pholisïau ar waith i'w dilyn gan y staff. Mae polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau cynhwysfawr gan y darparwr ac mae'n rheoli'r risg o heintiau yn dda.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/02/2023